Gweiddi

## Tasg 1

# Arwyr

1. Pwy, yn ôl y testun, yw arwyr arferol y Gemau Olympaidd?

2. Pam mae Yusra Mardini yn arwres?

3. Pam mae'r is-bennawd "Ysbrydoliaeth" yn addas ar ddiwedd y darn?

4. Beth sy'n gwneud arwr / arwres? Trafodwch hyn mewn grŵp ac ysgrifennwch nodiadau wrth i chi siarad.
   Cymharwch syniadau'ch grŵp chi gyda syniadau grwpiau eraill.

5. Rhestrwch 4 ansoddair i ddisgrifio arwr / arwres. Esboniwch pam rydych chi wedi dewis yr ansoddeiriau hyn, e.e.

**Cydwybodol**
Mae arwr / arwres yn gydwybodol oherwydd fel arfer mae'n gweithio'n galed ac yn gyson er mwyn llwyddo i wneud rhywbeth arbennig, fel gweithio'n galed i godi arian ar gyfer elusen arbennig neu helpu rhywun llai ffodus yn rheolaidd.

6. Pwy yw'ch arwr chi?
   Ysgrifennwch ddarn am eich arwr / arwres chi ond peidiwch â'i enwi. Rhowch gymaint o fanylion â phosib, heb ei enwi, e.e.

   - ble mae'n byw
   - beth mae'n ei wneud
   - pam mae'n arwr / arwres ac ati.